Rhaglen weithredu ehangu mynediad

Bydd rhaglen weithredu ehangu mynediad yn sail i Ymagwedd CCAUC at Ehangu Mynediad a bydd yn disgrifio gweithredu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ar gyfer ehangu mynediad. I lywio datblygiad a rhoi'r rhaglen weithredu ar waith, byddwn yn:

i. ystyried canlyniadau gwaith a gyllidwyd gan grant ar effeithiau ehangu mynediad a wnaed gan Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru;

ii. cyhoeddi gwerthusiad o Strategaethau Ymgyrraedd yn Ehangach;

iii. casglu tystiolaeth ar gyfradd y cyllid "ffioedd myfyrwyr" sy'n cael ei glustnodi ar gyfer ehangu mynediad a gweithgaredd cyfranogi gan ysgoloriaethau a bwrsariaethau i weithgaredd partneriaeth ysgolion ac ymgysylltu, yn ogystal â lleoli myfyrwyr a pharatoi ar gyfer cyflogaeth;

iv. archwilio partneriaethau ledled y sector rhwng prifysgolion ac ysgolion; a

v. hyrwyddo perthnasau ag ysgolion a cholegau.

Mae'r meysydd gweithredu cyntaf yn debygol o gynnwys:

i. gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu fframwaith ehangu mynediad i Gymru, gan ystyried blaenoriaethau polisi sy'n cystadlu;

ii. archwilio gyda'r sector AU ffyrdd y gellid ysgogi myfyrwyr i ddarparu cymorth dysgu a chymorth arall mewn ysgolion lleol fel rhan o, neu'n ogystal â gofynion arferol eu cwrs;

iii. gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar ymgorffori Rhif Unigryw'r Dysgwr, gan nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud gan raglen Gwybodaeth a Gwelliant Data Addysg Uwch;

iv. gweithio gyda'r partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach i sefydlu proffil/brand cyhoeddus mwy cadarn ar gyfer gweithgarwch ehangu mynediad gan y partneriaethau;

v. archwilio gyda'r partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach sut y gallai cyflogwyr lleol wneud mwy o gyfraniad at ehangu mynediad at addysg uwch;

vi. archwilio gyda'r sector AU y ffordd orau i hyrwyddo anghenion rhai sy'n gadael gofal, adeiladu ar drefniadau fframwaith Buttle UK; ac

vii. adolygu mesurau perfformiad ehangu mynediad a'i effaith ar y sector AU.

DRAFT